



Grŵp Strategaeth Meddyginiaethau Cymru Gyfan
All Wales Medicines Strategy Group



Adroddiad Blynyddol: 2024-2025



*Gwella iechyd a lles pobl yng Nghymru drwy
alluogi cleifion i gael y canlyniadau gorau o'u
meddyginiaethau*

*Mae'r ddogfen hon ar gael yn y Saesneg
This document is available in English*

| | | | |
|---|----|--------------------------------------|----|
| Rhagair | 03 | Optimeiddio meddyginiaethau | 24 |
| Croeso'r Cadeirydd | 03 | Canllawiau ac adnoddau rhagnodi | 24 |
| Crynodeb Cyfarwyddwyr AWTTTC | 05 | Cydnabyddiaethau | 26 |
| Datganiad Llywodraeth Cymru | 07 | | |
| Amdanon ni | 09 | Monitro a dadansoddi rhagnodi | 27 |
| Proffil AWMSG | 09 | Dangosyddion Rhagnodi Cenedlaethol | 27 |
| 2024-2025 mewn rhifau | 09 | | |
| Gweithio mewn partneriaeth | 10 | Mynediad at feddyginiaethau | 28 |
| Ein partneriaid a sut maen nhw'n cymryd rhan | 10 | Sganio'r gorwel | 28 |
| Yr hyn yr ydym wedi'i gyflawni gyda'n gilydd | 13 | Llwybrau mynediad | 30 |
| Ymgysylltu | 15 | Gweithredu | 31 |
| Newyddion | 19 | Ymchwil a chyhoeddiadau | 33 |
| Cael y canlyniadau gorau o feddyginiaethau | 19 | Gweithgarwch yn ystod 2024-2025 | 33 |
| Galluogi mynediad at feddyginiaethau | 20 | | |
| Diogelwch sy'n gysylltiedig â meddyginiaethau | 22 | | |
| Optimeiddio gwerth | 23 | | |

Rhagair

Croeso'r Cadeirydd

Mae'n bleser mawr gen i gyflwyno Adroddiad Blynyddol Grŵp Strategaeth Meddyginiaethau Cymru Gyfan (AWMSG) ar gyfer y flwyddyn adrodd hon. Mae'r flwyddyn ddiwethaf wedi cyflwyno cynnydd a her, gan danlinellu pwysigrwydd parhaus ein gwaith wrth gefnogi'r defnydd diogel, effeithiol a theg o feddyginiaethau ar draws GIG Cymru.



Mae'r flwyddyn ddiwethaf wedi cyflwyno cynnydd a her, gan danlinellu pwysigrwydd parhaus ein gwaith wrth gefnogi'r defnydd diogel, effeithiol a theg o feddyginiaethau ar draws GIG Cymru.



Mae AWMSG yn chwarae rhan hanfodol wrth sicrhau bod cleifion a theuluoedd yng Nghymru yn cael mynediad amserol at feddyginiaethau sy'n effeithiol yn glinigol ac o ran cost. Rydym yn gweithio mewn cydweithrediad agos â gweithwyr gofal iechyd proffesiynol, partneriaid diwydiant, a chleifion a'r cyhoedd i ddarparu asesiad meddyginiaeth sy'n seiliedig ar dystiolaeth a datblygu canllawiau ac adnoddau presgripsiynu cenedlaethol. Eleni, rydym wedi parhau i ganolbwyntio ar sicrhau canlyniadau ystyrlon i bobl Cymru drwy groesawu arloesedd, cryfhau ymgysylltiad clinigol, ac ymgorffori egwyddorion gofal iechyd sy'n seiliedig ar werth ym mhopeth a wnawn.

Mae uchafbwyntiau'r gwaith eleni yn cynnwys argymell sawl meddyginiaeth a fydd yn gwneud gwahaniaeth gwirioneddol i ofal cleifion ac ansawdd bywyd. Rydym wedi parhau i fireinio a symleiddio ein prosesau asesu meddyginiaeth AWMSG, gan sicrhau effeithlonrwydd wrth gynnal y safonau uchaf o dryloywder a thrylwyrredd. Cafodd proses Meddyginiaethau Cymru'n Un ei chydnabod yng Ngwobrau Canser



Mae AWMSG yn chwarae rhan hanfodol wrth sicrhau bod cleifion a theuluoedd yng Nghymru yn cael mynediad amserol at feddyginiaethau sy'n effeithiol yn glinigol ac o ran cost.



Moondance, ac rwy'n falch iawn o'r gwaith y mae AWTTTC yn ei wneud i gefnogi mynediad at feddyginiaethau yng Nghymru. Trwy optimeiddio meddyginiaethau, rydym hefyd yn cefnogi presgripsiynwyr i wneud penderfyniadau gwybodus sy'n cyd-fynd â blaenoriaethau cenedlaethol a chanllawiau arfer gorau. Hoffwn gydnabod y gwaith

caled sydd wedi'i wneud eleni i adolygu'r Dangosyddion Presgripsiynu Cenedlaethol ar gyfer mis Ebrill 2025 i fis Mawrth 2028 ac edrychaf ymlaen at dderbyn diweddariadau yng nghyfarfodydd AWMSG yn y dyfodol. Hoffwn hefyd longyfarch staff o AWTTTC ac Iechyd Cyhoeddus Cymru a dderbyniodd y wobr Cynaliadwyedd mewn Gofal Iechyd yng Ngwobrau Fferylliaeth Cymru am eu gwaith ar leihau'r ôl troed carbon sy'n gysylltiedig â mewnanadlwyr yn unol â'r strategaeth ddatgarboneiddio genedlaethol.

Ni fyddai dim o hyn yn bosibl heb ymroddiad ac arbenigedd staff AWTTTC, ein haelodau pwyllgor, arbenigwyr clinigol, cynrychiolwyr cleifion a'r cyhoedd, a rhanddeiliaid ehangach. Mae eu hymrwymiad i wella'r defnydd o feddyginiaethau ledled Cymru yn parhau i fod yn gonglfaen i lwyddiant AWMSG.


Wrth edrych ymlaen, rydym yn parhau i fod wedi ymrwymo i ymateb i heriau sy'n dod i'r amlwg yn y dirwedd gofal iechyd, o feysydd therapiwtig sy'n esblygu i'r pwysau ariannol sy'n wynebu'r GIG. Bydd AWMSG yn parhau i hyrwyddo defnydd cyfrifol

o feddyginiaethau ac yn ymdrechu am welliannau sydd o fudd i bob cymuned yng Nghymru.

Diolch am eich cefnogaeth a'ch ymgysylltiad parhaus.



Bydd AWMSG yn parhau i hyrwyddo defnydd cyfrifol o feddyginiaethau ac yn ymdrechu am welliannau sydd o fudd i bob cymuned yng Nghymru.



Yr Athro Iolo Doull
Cadeirydd
AWMSG



Grŵp Strategaeth Meddyginiaethau Cymru Gyfan
All Wales Medicines Strategy Group

Mae Cymru, yn yr un modd â gweinyddiaethau datganoledig eraill, yn wynebu pwysau clinigol, ariannol a chymdeithasol sylweddol. Nid yw'r angen am fynediad amserol at feddyginiaethau clinigol a chost-effeithiol erioed wedi bod yn fwy.

Mae Canolfan Therapiwteg a Thocsicoleg Cymru Gyfan (AWTTTC) yn dîm amlddisgyblaethol o glinigwyr, fferyllwyr, gwyddonwyr, economegwyr iechyd, arbenigwyr technoleg gwybodaeth a gweinyddwyr. Rydym yn darparu dealltwriaeth o fynediad at feddyginiaethau, optimeiddio meddyginiaethau, diogelwch meddyginiaethau a thocsicoleg i Lywodraeth Cymru, GIG Cymru, Byrddau Iechyd yng Nghymru a gweithwyr gofal iechyd proffesiynol unigol.

Mae AWTTTC yn cefnogi cenhadaeth AWMSG trwy ddarparu swyddogaeth ysgrifenyddol wyddonol, dechnegol a gweinyddol i AWMSG a'i is-bwyllgorau cysylltiedig. Rydym yn gweithio'n agos gydag aelodau AWMSG i sicrhau bod gan Lywodraeth Cymru a GIG Cymru wybodaeth o ansawdd uchel wedi'i hadolygu gan arbenigwyr annibynnol i gynorthwyo eu penderfyniadau.

Croesawom lythyr cylch gwaith gan Ysgrifennydd y Cabinet dros Iechyd a Gofal Cymdeithasol ym mis Ionawr 2025, a nododd bum blaenoriaeth allweddol i AWMSG eu cyflawni dros y tair blynedd nesaf. Mae ein tîm yn gweithio'n agos gyda AWMSG i gyflawni'r heriau hyn, hyrwyddo cynaliadwyedd amgylcheddol, a dileu anghydraddoldebau iechyd ledled Cymru.

Mae AWTTTC yn cydweithio â'n partneriaid ledled y DU i gefnogi'r Llwybr Trwyddedu a Mynediad Arloesol (ILAP) newydd, menter

Byddwn yn parhau i gymhwyso ein harbenigedd proffesiynol ac i ddatblygu ein henw da ym maes gwyddor data a dadansoddeg data...

Mae ein harbenigedd wedi'i seilio ar ein rhagoriaeth ymchwil.

gyntaf yn y byd sy'n integreiddio rheoleiddio meddyginiaethau ac arfarnu technolegau iechyd i ddarparu meddyginiaethau trawsnewidiol a dyfeisiau meddyginiaeth yn amserol ac yn effeithlon i'r Gwasanaethau Iechyd Gwladol datganoledig.

Mae AWTTTC yn ymateb i'r cyfle a roddir gan Rhaglen Fuddsoddi'r Cynllun Gwirfoddol ar gyfer Prisio, Mynediad a Thwf Meddyginiaethau wedi'u Brandio (VPAG) trwy wella ein gallu o ran sganio'r gorwel, ecosystem meddyginiaethau, caffael data a gweithredu. Mae cyllid wedi'i sicrhau tan 2028-29 i gyflawni nifer o amcanion allweddol a fydd yn rhoi hwb i arloesedd wrth gyflawni HTA, helpu i weithredu a gwella prosesau casglu a dadansoddi data. Bydd cyflawni hyn yn ein galluogi i fesur effeithiau newidiadau a chynllunio

addasiadau pellach i wneud y gorau o effaith meddyginiaethau yng Nghymru.

Mae ein harbenigedd wedi'i seilio ar ein rhagoriaeth ymchwil. Rydym yn cydweithio'n agos â'n cydweithwyr academiaidd a'r gwasanaeth iechyd i archwilio pynciau sy'n berthnasol yn glinigol a datblygu ein galluedd yn fewnol. Eleni rydym wedi cyhoeddi saith erthygl a adolygwyd gan gymheiriaid mewn llenyddiaeth glinigol a gwyddonol, wedi'u cyflwyno mewn cynadleddau rhyngwladol, ac rydym wedi cyflwyno cyflwyniadau drwy wahoddiad ledled y DU.

Byddwn yn parhau i gymhwyso ein harbenigedd proffesiynol ac i ddatblygu ein henw da ym maes gwyddor data a dadansoddeg data i gefnogi ein cydweithwyr AWMMSG i ddarparu mynediad at feddyginiaethau o'r radd flaenaf a rheoli meddyginiaethau i bobl Cymru. Yn olaf, hoffem ddiolch i'r holl staff gwych yn AWTTC am eu hagwedd benderfynol, eu gweledigaeth a'u harbenigedd i ddarparu rhaglen waith o safon mor uchel dros y 12 mis diwethaf.



Dr Andrew Champion
Cyfarwyddwr Rhaglen
AWTTC

A. R. Champion



Yr Athro James Coulson
Cyfarwyddwr Clinigol
AWTTC

J. Coulson



Mae AWTTC yn cefnogi cenhadaeth AWMMSG trwy ddarparu swyddogaeth ysgrifenyddol wyddonol, dechnegol a gweinyddol...



Mae meddyginiaethau yn chwarae rhan hanfodol wrth wella ansawdd a chynyddu hyd bywydau llawer o bobl. Mae datblygiadau mewn triniaeth yn cynnig mwy o gyfle nag erioed i newid cwrs clefydau yn radical ac mewn rhai achosion, gwrthdroi neu wella cyflyrau y cynigiodd triniaethau blaenorol ychydig neu ddim siawns o welliant ystyrllon.

Yng Nghymru, gallwn fod yn falch o'r camau a gymerwyd i sicrhau bod pobl yn cael mynediad prydlon at y meddyginiaethau hyn sy'n effeithiol yn glinigol waeth ble yng Nghymru maen nhw'n byw, ac ar gost sy'n cynrychioli gwerth am arian i'r GIG.

Mae Grŵp Strategaeth Meddyginiaethau Cymru Gyfan (AWMSG) yn chwarae rôl arweinyddiaeth hanfodol wrth asesu, arwain a monitro argaeledd a defnydd y meddyginiaethau rydyn ni'n eu gwneud ar gael yn rheolaidd yn y GIG. Mae'n braf felly gweld bod y gwelliannau sylweddol a wnaed i brydlondeb mynediad at feddyginiaethau arloesol ers cyflwyno Cronfa Triniaethau Newydd Llywodraeth Cymru yn 2017, wedi cael eu cynnal unwaith eto a bod nifer y meddyginiaethau a werthuswyd a'u cefnogi gan y gronfa wedi cynyddu ers adroddiad blynyddol diwethaf AWMSG.



Rwy'n ddiolchgar i'r Cadeirydd ac aelodau AWMSG, ac i aelodau o bob un o is-grwpiau AWMSG, am yr amser a'r arbenigedd y maent yn eu rhoi i gyfrannu at waith y pwyllgor...



Er bod asesu technoleg iechyd yn parhau i fod y prif lwybr i feddyginiaethau gael eu cymeradwyo i'w defnyddio yng Nghymru, i rai pobl gan gynnwys y rhai sydd â chlefydau prin, mae ail-bwrpasu meddyginiaethau yn darparu dull newydd o drin sy'n seiliedig ar dystiolaeth. Mae'r defnydd cynyddol o lwybr mynediad Cymru'n Un a rôl gynyddol bwysig AWMSG wrth graffu ar benderfyniadau Cymru'n Un a amlygwyd gan adroddiad eleni, yn dangos ein hymrwymiad cyfunol, parhaus i ddod o hyd i ffyrdd creadigol o wella mynediad at driniaeth

a sicrwydd i gleifion a chlinigwyr fel ei gilydd.

Wrth i fynediad at feddyginiaethau gynyddu, mae'r gost i'r GIG yn cynyddu. Mae'r GIG yng Nghymru yn buddsoddi mwy na £1bn bob blwyddyn mewn meddyginiaethau gyda lefel y buddsoddiad yn 2024/25 yn uwch nag erioed. Mae hyn yn ei gwneud hi'n hanfodol bod meddyginiaethau yn cael eu defnyddio'n effeithiol mewn ffyrdd sy'n gwneud y mwyaf o'u buddion a lleihau eu risgiau. Rwy'n croesawu'r pwysigrwydd y mae AWMSG wedi'i roi yn ystod y flwyddyn ddiwethaf ar ddatblygu canllawiau optimeiddio meddyginiaethau cynhwysfawr ac adnoddau presgripsiynu i gefnogi timau clinigol i wella sut mae meddyginiaethau'n cael eu rhagnodi a'u defnyddio. Bydd canolbwyntio o'r newydd ar optimeiddio meddyginiaethau, gan gynnwys mewn meysydd effaith uchel fel defnyddio gwrthseicotigau ar gyfer dementia, mynd i'r afael ag ymwrthedd gwrthficrobaidd a phrinder meddyginiaethau, yn arwain at welliannau cadarnhaol yn y defnydd diogel ac effeithiol o feddyginiaethau.

Unwaith eto, ar lefel genedlaethol mae gwelliant sylweddol wedi'i wneud yn erbyn dangosyddion presgripsiynu

cenedlaethol AWMSG. Fodd bynnag, yn sail i'r gwelliant cyffredinol, mae amrywiaeth sylweddol rhwng byrddau iechyd, clystyrau ac arferion. Rydym yn gwybod nad yw manteision meddyginiaethau o reidrwydd yn cael eu teimlo'n gyfartal a gall dosbarthiad presgripsiynu da fod o fudd i rai pobl yn fwy



Mae Grŵp Strategaeth Meddyginiaethau Cymru Gyfan (AWMSG) yn chwarae rôl arweinyddiaeth hanfodol wrth asesu, arwain a monitro argaeledd a defnydd y meddyginiaethau rydyn ni'n eu gwneud ar gael yn rheolaidd yn y GIG.



nag eraill. Mae'r gwelliannau a amlygwyd yn yr adroddiad hwn yn darparu sylfaen ar gyfer cynnydd cadarnhaol pellach, ond bydd yn hanfodol bwysig bod AWMSG yn rhoi hyd yn oed mwy o bwyslais ar fesur canlyniadau a mynd i'r afael ag anghydraddoldebau parhaus mewn iechyd drwy hyrwyddo mynediad cyfartal at feddyginiaethau a phresgripsiynu meddyginiaethau i bawb yng Nghymru yn y blynyddoedd i ddod.

Rwy'n ddiolchgar i'r Cadeirydd ac aelodau AWMSG, ac i aelodau o bob un o is-grwpiau AWMSG, am yr amser a'r arbenigedd y maent yn eu rhoi i gyfrannu at waith y pwyllgor, ac i waith staff Canolfan Therapiwteg a Thocsicoleg Cymru Gyfan. Heb eu cefnogaeth ni fyddai AWMSG yn gallu gyrru'r gwelliant parhaus yn y defnydd diogel, effeithiol a chost-effeithiol o feddyginiaethau sydd mor amlwg yn yr adroddiad blynyddol hwn.

Andrew Evans OBE FRPharmS
Prif Swyddog Fferyllol
Llywodraeth Cymru



Llywodraeth Cymru
Welsh Government



Amdanon ni

Proffil AWMMSG

Ein gweledigaeth i Gymru - "Gwella iechyd a lles pobl yng Nghymru drwy alluogi cleifion i gael y canlyniadau gorau o'u meddyginiaethau"

Enw: Grŵp Strategaeth Meddyginiaethau Cymru Gyfan (AWMSG)

Cadeirydd: Yr Athro Iolo Doull

Sefydlwyd: 2002

Swydd: Cyngori Llywodraeth Cymru ar ddatblygiadau strategol ym maes rhagnodi fel yr amlinellir yn [Strategaeth Cymru AWMMSG: 2024-2029](#)

Aelodau: Yn cynnwys meddygon, nyrsys, fferyllwyr a gweithwyr gofal iechyd eraill all rhagnodi meddyginiaethau, academyddion, economegwyr iechyd, cynrychiolydd o'r diwydiant fferyllol, aelodau lleyg a chyfarwyddwr Cyllid y GIG. Gweler [Ein Pwyllgorau](#) ar wefan AWTTTC am restrau o aelodau unigol.

Achrediad: Achredodd y Sefydliad Cenedlaethol dros Ragoriaeth mewn Iechyd a Gofal (NICE) broses asesu technoleg iechyd AWMMSG i ddynodi ansawdd rhwng 2011 a 2024 cyn cau ei raglen achredu ym mis Gorffennaf 2024.

Grwpiau ac is-grwpiau cyngori:

- Grŵp Cyngori ar Ragnodi Cymru Gyfan (AWPAG)
- Panel Craffu AWMMSG
- Pwyllgor Llywio AWMMSG
- Grŵp Asesu Meddyginiaethau Trwyddedig Cymru'n Un (LOWMAG) a ddisodlodd y Grŵp Meddyginiaethau Newydd (NMG)
- Grŵp Asesu Meddyginiaeth Cymru'n Un (OWMAG)
- Grŵp Cynllun Trefniadau Masnachol Cymru (CASWG)

Am ragor o wybodaeth gweler [Ein Pwyllgorau](#) ar wefan AWTTTC.

Sefydliadol: Mae Pwyllgor Llywio AWMMSG yn goruchwyllo ac yn arwain mentrau strategol, ac mae Canolfan Therapiwteg a Thocsicoleg Cymru Gyfan (AWTTTC) yn darparu cymorth clinigol, gwyddonol, dadansoddol a gweinyddol.

Cyfarfodydd: cynhaliwyd 10 cyfarfod yn 2024-2025. Mae'r cyfarfodydd yn agored i'r cyhoedd. Mae [cofnodion cyfarfodydd blaenorol a dyddiadau rhai'r dyfodol](#) ar wefan AWTTTC.

Mwy o wybodaeth:

[awttc.nhs.wales](#) (Gwefan Saesneg)
[cttcg.gig.cymru](#) (Gwefan Gymraeg)
[@AWTTCComms](#) (Cyfrif X Saesneg)
[@AWTTCCymraeg](#) (Cyfrif X Cymraeg)
[LinkedIn](#) (Cymraeg a Saesneg)

2024-2025 mewn rhifau



10 o gyfarfodydd wedi'u cynnal



5 meddyginiaeth wedi'u harfarnu gan AWMMSG



4 argymhelliad Cymru'n Un a 7 adolygiad Cymru'n Un



8 cyhoeddiad optimeiddio meddyginiaethau




77 o feddyginiaethau ar y Gronfa Triniaethau Newydd




14 o Ddangosyddion Rhagnodi Cenedlaethol wedi eu monitro

Ein partneriaid a sut maen nhw'n cymryd rhan

Rydym yn gweithio gyda chleifion a'r cyhoedd, gweithwyr gofal iechyd proffesiynol a chynrychiolwyr o'r diwydiant fferyllol, yn ogystal â Llywodraeth Cymru a sefydliadau perthnasol yn y DU, i gyhoeddi argymhellion ar feddyginiaethau a chanllawiau ar wneud y defnydd gorau o feddyginiaethau.



Ein tri phartner allweddol yw: cleifion a'r cyhoedd; gweithwyr gofal iechyd proffesiynol; a'r diwydiant fferyllol. Maent wedi'u hymgorffori ym mhob agwedd ar ein gwaith ac maent yn chwarae rhan hanfodol wrth gyflawni ein nodau a rennir. Mae llawer o ffyrdd y gallant gymryd rhan yn ein gwaith. Dyma rai enghreifftiau.



Cleifion a'r cyhoedd

- Yn ystod ein hasesiad o feddyginiaethau, [rydym yn gofyn i gleifion a'r cyhoedd am eu barn](#) ar sut brofiad yw byw gyda'u cyflwr iechyd ac ar unrhyw feddyginiaethau y maent yn, neu yr oeddent, yn eu cymryd ar ei gyfer. Rydym yn ystyried y safbwyntiau hyn pan fyddwn yn gwneud ein hargymhelliad i Lywodraeth Cymru. Mae'r [asesiadau meddyginiaeth sydd ar y gweill ar hyn o bryd](#) wedi'u rhestru ar wefan AWTTTC.

- Rydym yn cynhyrchu adnoddau i gefnogi'r defnydd diogel a gorau o feddyginiaethau yn GIG Cymru. Rydym yn gofyn i gleifion a'r cyhoedd roi [sylwadau ar bob adnodd meddyginiaethau](#) a gynhyrchir. Rydym yn ystyried ac yn mynd i'r afael â phob ymateb cyn i'r adnodd gael ei gwblhau, ei gymeradwyo a'i gyhoeddi. Mae [ymgyngoriadau agored](#) cyfredol wedi'u rhestru ar wefan AWTTTC.
- Mae [ein haelodau lleig](#) yn aelodau o'r cyhoedd ac yn aelodau pleidleisio llawn. Maent yn rhoi barn annibynnol ac yn tynnu sylw at yr hyn sy'n bwysig i gleifion, a'u teuluoedd a'u gofalwyr, i helpu i lywio penderfyniadau am feddyginiaethau ac adnoddau meddyginiaethau newydd.
- Mae [cyfarfodydd Grŵp Buddiannau Cleifion a'r Cyhoedd \(PAPIG\)](#) yn cael eu cynnal bedair gwaith y flwyddyn ac yn cael eu cefnogi gan AWTTTC. Maent yn gyfle i gleifion a'r cyhoedd glywed am ein gwaith, a dysgu sut y gallant [gymryd rhan](#).



Gweithwyr gofal iechyd proffesiynol

- Mae aelodau'r pwyllgor yn dod ag amrywiaeth eang o wybodaeth arbenigol ynghyd, gan gynnwys y rhai sy'n gweithio mewn ystod o broffesiynau gofal iechyd ym mhob ardal o Gymru. Rydym yn annog gweithwyr gofal iechyd proffesiynol i [gysylltu â ni](#) os oes ganddynt ddiddordeb mewn [dod yn aelod o'r pwyllgor](#).
- Gall gweithwyr gofal iechyd proffesiynol sy'n gweithio yng Nghymru [gynnig adnodd optimeiddio meddyginiaethau](#) i'w ystyried drwy ein proses gymeradwyo, sy'n cynnwys ymgynghoriad agored ar wefan AWTTTC.
- Gwahoddir gweithwyr gofal iechyd proffesiynol hefyd i nodi pryd mae angen asesiad AWMSG ar gyfer meddyginiaeth. Gallant lenwi [ffurflen gais meddyginiaethau ar gyfer gweithwyr gofal iechyd proffesiynol](#) neu e-bostio AWTTTC yn awttc@wales.nhs.uk.
- Gallai unrhyw weithiwr gofal iechyd proffesiynol sy'n gweithio gyda chleifion chwarae rhan sylweddol yn [rhoi cyngor arbenigol](#) i ni. Er enghraifft, rydym yn gofyn i arbenigwyr clinigol gyfrannu at broses asesu meddyginiaethau AWMSG, ac i fynychu cyfarfodydd Grŵp Asesu Meddyginiaethau Trwyddedig Cymru'n Un (LOWMAG) a Grŵp Asesu Meddyginiaethau Cymru'n Un (OWMAG) i gyfrannu at drafodaethau. Gofynnwn hefyd i weithwyr gofal iechyd proffesiynol wneud sylwadau ar y canllawiau rhagnodi a'r adnoddau optimeiddio meddyginiaethau rydym yn eu cynhyrchu. Mae [cynllun gwaith asesu AWMSG](#) a'r [ymgyngoriadau agored](#) cyfredol wedi'u rhestru ar wefan AWTTTC.
- Mae AWTTTC yn cynnal [Diwrnodau Arfer Gorau](#) lle mae gweithwyr gofal iechyd proffesiynol yn rhannu mentrau arfer gorau sy'n gysylltiedig ag optimeiddio meddyginiaethau. Mae AWTTTC hefyd yn cynnal sesiynau [Dysgu dros Ginio](#) - cyfres o ddigwyddiadau ar-lein awr o hyd sy'n ymwneud â meysydd therapiwtig, newyddion rhagnodi cenedlaethol a diweddariadau i ymarfer clinigol.






Y diwydiant fferyllol

- Mae Fforwm Diwydiant AWTTTC yn rhoi cyfle i gynrychiolwyr o'r diwydiant fferyllol gwrdd yn rheolaidd ag AWTTTC i siarad am faterion sy'n ymwneud â mynediad at feddyginiaethau yng Nghymru.
- Mae tîm [sganio'r gorwel](#) AWTTTC yn casglu gwybodaeth am feddyginiaethau newydd, arwyddion (y cyflyrau y maent yn eu trin) a fformwleiddiadau newydd sydd ar y gweill yn fferyllol. [UK PharmaScan](#) yw prif ffynhonnell gwybodaeth y tîm ac rydym yn annog cwmnïau i ymgysylltu â UK PharmaScan.
- Mae'r [Tîm Mynediad at Feddyginiaethau Masnachol](#) yn cefnogi a monitro gweithrediad meddyginiaethau a argymhellir gan AWMSG neu'r Sefydliad Cenedlaethol dros Ragoriaeth mewn Iechyd a Gofal (NICE) pan fo'r feddyginiaeth yn gysylltiedig â threfniant



masnachol gyda GIG Cymru. Mae ymgysylltu cynnar gan y diwydiant fferyllol yn galluogi'r tîm i sicrhau bod cleifion yn cael mynediad amserol at feddyginiaethau a bod GIG Cymru yn cael gwerth am arian.

- Anogir cwmnïau i gysylltu â ni cyn gynted â phosibl i ddweud wrthym am feddyginiaethau sydd ar y gweill a rhannu gwybodaeth i helpu i gynllunio a gweithredu meddyginiaethau ar raglen waith NICE. Yn absenoldeb cyngor NICE, gall cwmnïau [gyflwyno meddyginiaeth i'w hystyried gan Banel Craffu AWMSG](#). Bydd Panel Craffu AWMSG yn penderfynu a yw meddyginiaeth yn bodloni meini prawf AWMSG i'w hasesu gan LOWMAG neu OWMAG.
- Gall cwmnïau fferyllol gymryd rhan mewn ymgynghoriadau ar gyfer unrhyw adnoddau optimeiddio meddyginiaethau sydd wrthi'n cael eu datblygu. Caiff pob ymateb ei ystyried cyn i'r adnodd gael ei gwblhau, ei gymeradwyo a'i gyhoeddi. Mae [ymgyngoriadau agored](#) cyfredol wedi'u rhestru ar wefan AWTTTC.



Cleifion a'r cyhoedd



4 cyfarfod PAPIG



10 Aseiad meddygiaethau



18 o siaradwr



19 o gyflwyniadau gan gleifion a'r cyhoedd



95 o fynychwyr



8 ymgynghoriad optimeiddio meddygiaethau



13 pwnc yn gysylltiedig â meddygiaethau wedi eu trafod yn fanwl



11 o ymatebion gan gleifion a'r cyhoedd




Y diwydiant fferyllol



4 cyfarfod Fforwm Diwydiant AWTTC



2 gyflwyniad i'r Grŵp Diwydiant Meddygiaethau Moesegol (EMIG)



1 cyflwyniad i Fwrdd Cymdeithas Diwydiant Fferyllol Prydain (ABPI)



8 ymgynghoriad optimeiddio meddygiaethau



7 ymateb o'r diwydiant fferyllol

Gweithwyr gofal iechyd proffesiynol

Gweithwyr iechyd proffesiynol ar ein pwyllgorau:

20
AWMSG

9
NMG

24
AWPAG

18
OWMAG

 **3** Sesiwn Dysgu dros Ginio

479 o fynychwyr 

 **8** ymgynghoriad optimeiddio meddyginiaethau **88** o ymatebion gan weithwyr gofal iechyd proffesiynol

 **1** Diwrnod Arfer Gorau

120 o fynychwyr 

22 o arbenigwyr clinigol yn ymwneud ag asesiadau meddyginiaethau 

9 arbenigwr clinigol  + **14** o grwpiau arbenig 

yn ymwneud â datblygu adnoddau optimeiddio meddyginiaethau

Mae [gwefan AW TTC](#) a'r cyfryngau cymdeithasol yn ffyrdd pwysig o gyfathrebu â'n partneriaid a lledaenu'r gair am yr hyn rydym yn ei wneud.



67 mil o ymweliadau ar wahân



34 mil o ddefnyddwyr ar wahân



495 mil o ymweliadau â thudalennau



81.5 mil o bostiadau X



289 o ddilynwyr LinkedIn

Ar ein rhan, mae AW TTC yn trefnu ac yn cymryd rhan mewn digwyddiadau allweddol i addysgu, cyfnewid syniadau, clywed am brofiadau personol, rhwydweithio a lledaenu ymwybyddiaeth am yr hyn yr ydym yn ei wneud. Mae rhai digwyddiadau o'r flwyddyn ddiwethaf wedi'u rhestru isod.



Digwyddiadau o Ebrill 2024 i Mawrth 2025


Ebrill 2024

- [Lansiwyd Strategaeth Bum Mlynedd newydd AWMSG](#), sy'n nodi ein huchelgeisiau a'n nodau ar gyfer 2024-2029. Gweithiodd AW TTC yn agos gydag AWMSG i ddatblygu'r [Strategaeth](#), ar ôl ymgysylltu ag ystod eang o sefydliadau partner i sicrhau ei bod yn cyd-fynd â blaenoriaethau GIG Cymru, Llywodraeth Cymru a phobl Cymru.

Mai 2024

- Aeth sesiwn hyfforddi [Dysgu Dros Ginio AW TTC](#) ar gyfer gweithwyr gofal iechyd

proffesiynol i'r afael â sut i weithio gyda'i gilydd i optimeiddio'r defnydd o gyffuriau gwrthseicotig gyda phobl sy'n byw gyda dementia, adnoddau ar gyfer rheoli meddyginiaethau yn ddiogel mewn cartrefi gofal, yn ogystal â diweddariad cyflym ar therapiwteg.



- Rhoddodd staff AW TTC [dri anerchiad a phedwar cyflwyniad poster yn 44^{ain} Cyngres Cymdeithas Ewropeaidd Canolfannau Gwenwyn a Thocsicolegwyr Clinigol \(EAPCCT\)](#). Roedd y pynciau'n cynnwys: amlygiad paracetamol bwriadol mewn plant; gweinyddu mewnfasgwlaidd damweiniol o hydoddiant glanhau clwyfau; ac amlygiad i gynhyrchion llysieuol Falerian.
- Yng nghyfarfod y [Grŵp Buddiannau Cleifion a'r Chyhoedd \(PAPIG\)](#)

rhoddodd uwch wyddonwyr a fferyllwyr ymgynghorol gyflwyniadau neu arweinion nhw drafodaethau agored ar alergeddau i benisilin a'r hyn y gallwn ei wneud i fynd i'r afael ag ymwrthedd i wrthfotigau. Rhoddwyd diweddariadau ar daflenni gwybodaeth i gleifion sydd wrthi'n cael eu datblygu, Canolfan Cerdyn Melyn Cymru, a'r broses o gael mynediad at feddyginiaethau.

- Creodd [poster a gyflwynwyd yn 34^{ain} Cyfarfod Gwyddonol Blynyddol y Rhaglen Presgripsiynu ac Ymchwil mewn Rheoli Meddyginiaethau \(PRIMM\)](#) am waith AW TTC i ddatblygu fformatau hawdd eu darllen o daflenni gwybodaeth i gleifion yng Nghymru argraff dda.
- [Cynhaliodd AW TTC weithdy llwyddiannus arall ar gyfer Ceisiadau Cyllido Cleifion Unigol \(IPFR\)](#). Roedd y [gweithdy blynyddol](#) yn boblogaidd



ac yn rhoi hyfforddiant i aelodau panel IPFR, cydweithwyr bwrdd iechyd sy'n ymwneud â chyflwyno'r broses IPFR, a chlinigwyr sydd â diddordeb mewn dysgu mwy am IPFR.

Mehafn 2024

- Aeth staff AW TTC i [Cyfarfod Blynyddol Asesu Technoleg Iechyd Rhyngwladol \(HTAi\)](#) yn Seville lle roedd dros 900 o weithwyr Asesu Technoleg Iechyd Proffesiynol o dros 60 o wledydd yn bresennol. Cyflwynodd staff AW TTC dri phoster. Roedd pynciau'r poster'i'n cynnwys: GIG Cymru yw'r genedl gyntaf yn y DU i gymeradwyo'r defnydd o dostarlimab i drin canser y rectwm; rituximab all-drwydded fel triniaeth gyntaf ar gyfer myasthenia gravis cyffredinol; ac addasu proses arfarnu AWMSG.



- [Cydweithiodd AW TTC â Rhwydwaith Canser Cymru](#) i ddatblygu prosesau sganio'r gorwel mwy effeithiol ac 'Unwaith i Gymru' ar gyfer meddyginiaethau canser. Cyflwynodd y tîm eu gwaith yn nigwyddiad Addysg Therapiau Gwrth-ganser Systemig (SACT) a'r Gwasanaeth Oncoleg Acíwt (AOS) yn Llandudno, gan ysgogi llawer o drafodaeth gadarnhaol gyda'r cynrychiolwyr.

Gorffennaf 2024

- Roedd [Diwrnod Arfer Gorau](#) eleni'n canolbwyntio ar gadw at feddyginiaethau. Agorwyd y digwyddiad gan Brif Swyddog Fferyllol Cymru, ac yna cafwyd sgysiau gan weithwyr gofal iechyd proffesiynol a seicolegwyr iechyd yn y bore, a sesiynau grŵp rhyngweithiol



yn y prynhawn, ynghyd â digon o gyfleoedd i gydweithwyr o bob cwr o Gymru rwydweithio a dal i fyny.

- [Cyflwynodd staff AW TTC boster yng Nghyfarfod Gwanwyn Cymdeithas Geriatreg Prydain](#) ynglŷn â nodi risgiau diogelwch posibl sy'n gysylltiedig â'r defnydd o systemau dos wedi'u monitro. Roedd y gwaith yn gydweithrediad rhwng Gwasanaeth Gwybodaeth Gwenwynau Cenedlaethol (NPIS) y DU, Bwrdd Iechyd Prifysgol Bae Abertawe a AW TTC yn dilyn trafodaeth yn y Diwrnod Arfer Gorau yn 2023.
- [Roedd Diwrnod Diogelwch Meddyginiaethau Blynyddol Canolfan Cerdyn Melyn Cymru](#) yn llwyddiant ysgubol, ac yn ddiwrnod o gydweithio a dysgu. Roedd y digwyddiad yn nodi 60 mlynedd ers i'r Cerdyn Melyn cyntaf gael ei dderbyn ym 1964.



Awst 2024

- [Treuliodd staff o AW TTC wythnos yn ymgysylltu â'r cyhoedd yn yr Eisteddfod Genedlaethol ym Mhontypridd.](#) Wnaethant gwrdd â llawer o bobl a sôn wrthynt am ein gwaith yn cefnogi'r defnydd gorau a diogel o feddyginiaethau, ac esbonio sut y gall aelodau o'r cyhoedd, cleifion, grwpiau cymorth cleifion, gofalwyr a gweithwyr gofal iechyd proffesiynol gymryd rhan.



Medi 2024

- Cynhaliwyd cyfarfod diddorol ac addysgiadol arall o'r [Grŵp Buddiannau Cleifion a'r Chyhoedd \(PAPIG\)](#) ym mis Medi, ac roedd y cyflwyniadau'n

cynnwys 'Datgelu tueddiadau diogelwch meddyginiaethau' ac 'Wythnos Diogelwch Meddyginiaethau a Diwrnod Diogelwch Cleifion y Byd - codi ymwybyddiaeth o ddiogelwch meddyginiaethau'.

- Ymunodd [Canolfan Cerdyn Melyn \(CCM\) Cymru](#) â AW TTC yng Nghynhadledd Cymdeithas Fferyllol Frenhinol Cymru i drafod gwaith AW TTC a CCM Cymru gyda chynrychiolwyr.



Hydref 2024

- Cynhaliwyd sesiwn [Dysgu Dros Ginio](#) boblogaidd arall ym mis Hydref, ac roedd yn cynnwys diweddariad cyflym ar therapiwteg a chyflwyniadau am y defnydd o gyfwerthedd morffin drwy'r

geg mewn Dangosyddion Rhagnodi Cenedlaethol a Chanllawiau Rheoli a Rhagnodi Asthma Oedolion Cymru Gyfan.

- Rhoddodd staff AW TTC anerchiad yng Nghynhadledd Wyddonol Flynnyddol y Coleg Brenhinol Meddygaeth Frys ar natur, amllder a difrifoldeb yr ymholiadau sy'n gysylltiedig â sodiwm asaid a dderbyniwyd gan uned Caerdydd y Gwasanaeth Gwybodaeth Gwenwynau Cenedlaethol (NPIS), a'r pryder am y defnydd o'r cemegyn hwn i hunan-niweidio yn fwriadol.

Tachwedd 2024

- Cafwyd y nifer mwyaf o fynychwyr erioed yng [nghyfarfod olaf PAPIG](#) o 2024. Roedd y cyflwyniadau yn canolbwyntio ar yr ymgyrch Eich Meddyginiaethau, Eich Iechyd, sut y gall seicoleg iechyd helpu i gadw at feddyginiaethau, a KidzMedz Cymru ar ddysgu plant i lyncu tabledi yn ddiogel.
- Ymwelodd uwch staff AW TTC â gorsaf radio Rookwood yn Ysbyty Llandochoau i ledaenu'r gair am AW TTC i gleifion a staff. Cawsant eu [cyfweld gan y](#)

[cyflwynydd radio](#) Wesley Pritchard a sonion nhw am waith AW TTC a sut y gallai gwrandawyr gymryd rhan.

Chwefror 2025

- Yn sesiwn [Dysgu Dros Ginio](#) gyntaf 2025, cafwyd y newyddion diweddaraf am y Dangosyddion Rhagnodi Cenedlaethol, a chyflwyniad o Ganllaw Arfer Da AWMSG ar gyfer rhagnodi gwrthfotigau wrth gefn.



Mawrth 2025

- Yng [nghyfarfod PAPIG](#) ym mis Mawrth, cafwyd dau gyflwyniad: diweddariad ar

broses asesu meddyginiaethau AWMSG newydd, ac anerchiad ar ymyriadau nad ydynt fel arfer ar gael ar y GIG – gan gynnwys beth ydyn nhw ac o dan ba amgylchiadau y gellir eu cynnig.

- Gwahoddwyd Cyfarwyddwr Rhaglen AW TTC, [Dr Andrew Champion i siarad yng nghynhadledd flynnnyddol NICE 2025](#) fel rhan o'r sesiwn 'Hybu atebion creadigol mewn asesiad technoleg iechyd'. Siaradodd Dr Champion am y broses newydd i gael mynediad at feddyginiaethau yng Nghymru a ddatblygwyd gan AW TTC ar ran AWMSG. Cymerodd ran hefyd mewn sesiwn holi ac ateb gyda chyd-siaradwyr.



Cael y canlyniadau gorau o feddyginiaethau

Mae strategaeth bum mlynedd **AWMSG** ar gyfer 2024-2029 yn diffinio pedwar uchelgais eang y mae aelodau eisiau i'n strategaeth ganolbwyntio arnynt: cael y canlyniadau gorau o feddyginiaethau; galluogi mynediad at feddyginiaethau; diogelwch sy'n gysylltiedig â meddyginiaethau; ac optimeiddio gwerth. Rydym wedi defnyddio'r pedwar uchelgais hyn i gategoreiddio straeon newyddion nodedig dros y flwyddyn ddiwethaf.



Un uchelgais gennym yw i helpu pobl yng Nghymru i gael y cyfle gorau i wireddu'r manteision a fwriadwyd wrth gymryd y meddyginiaethau a ragnodwyd iddynt, a dylid cefnogi'r claf ei hun a'i rhagnodwr i wireddu hynny. Lle y bo'n briodol, dylai hyn gynnwys dad-ragnodi meddyginiaeth pan fo risg yn gorbwyso'r budd. Dros y flwyddyn ddiwethaf, rydym wedi gweithio gydag AWTC a'n partneriaid ar amrywiaeth o brosiectau sydd wedi helpu i wireddu'r uchelgais hwn.

Diweddarau llyfr fformiwlâu'r Gwasanaeth Anhwylderau Cyffredin

Nod [llyfr fformiwlâu'r Gwasanaeth Anhwylderau Cyffredin](#) yw gwella mynediad cleifion at gyngor cyson sy'n seiliedig ar dystiolaeth ar gyfer rheoli dros 25 o anhwylderau cyffredin. Yn 2024-2025 diweddarwyd y llyfr fformiwlâu gyda monograff newydd ar gyfer 'Haint y llwybr wrinol mewn menywod a dynion trawsryweddol nad ydynt wedi cael llawdriniaeth ailbennu rhywedd' a gwnaed mân ddiweddariadau i lawer o'r monograffau presennol.

All Wales Common Ailments Service Formulary

Flowchart for women and transgender males who have not undergone sex reassignment surgery (16 – 64 years) with suspected UTI

All Wales Medicines Strategy Group

1.4 Overview of treatment*

What to prescribe:

- A combined topical bexarotene (3% or 5%) and topical clindamycin (1%) preparation (i.e. Daxac-Clonac Daily gel), or Daxac-Clonac Daily gel oral tablets, consider refer to the GP for treatment with a topical combination product preparation (e.g. Triderm®) or a topical bexarotene/permethexin combination preparation (e.g. EpiDuo®).
- Consider topical permethexin as monotherapy if the above options are contraindicated or the person wishes to avoid using a topical steroid or antibiotic.
- First line treatment should be reviewed at 12 weeks by the GP to assess treatment success and if there is a need for maintenance treatment.

| Medication | 1st line | 2nd line |
|--|---|----------------------------|
| Generic name | Bexarotene peroxide (3% or 5%) with clindamycin (1%) gel (Daxac-Clonac Daily gel) | Bexarotene peroxide 3% gel |
| Legal class | POD (Supply via POD) | POD |
| Pack size | 30g x 1, 60g x 1 | 30g x 1 |
| Maximum number of packs to supply per consultation | 1 | 1 |
| Maximum number of consultations per episode† | 2† | 1 |

Cyhoeddi canllawiau Cymru Gyfan ar dad-labelu alergedd i benisilin

Mae tua 10% o gleifion sy'n cael eu derbyn i'r ysbyty wedi'u labelu fel rhai sydd ag alergedd i benisilin, ond nid yw'r rhan fwyaf ohonynt wedi profi adwaith alergaidd. Mae dad-labelu alergedd i benisilin yn fenter allweddol i wella prosesau rhagnodi gwrthfotigau a stiwardiaeth gwrthficrobaidd. Nod y [canllawiau Cymru Gyfan](#) yw arwain arfer gorau ar nodi a thynnu labeli alergedd i benisilin mewn oedolion nad ydynt wedi profi adwaith gorsensitifrydd go iawn. Bwriad y canllawiau yw eu defnyddio ar gyfer cleifion sy'n adrodd am alergedd i benisilin mewn lleoliadau gofal eilaidd yn GIG Cymru.

All Wales guidance for penicillin allergy de-labelling in adults in secondary care

Appendix 1: Penicillin allergy risk stratification

Adult patient reports penicillin allergy recorded in notes

IF YES TO ANY

DO NOT administer a penicillin or other beta-lactam until:

- 1. The patient has been assessed by a specialist allergy clinic.
- 2. The patient has been given a written statement from the specialist allergy clinic.

IF NO

DO NOT administer a penicillin or other beta-lactam until:

- 1. The patient has been assessed by a specialist allergy clinic.
- 2. The patient has been given a written statement from the specialist allergy clinic.



Mae gennym uchelgais i alluogi mynediad at y meddyginiaethau cywir ar yr adeg gywir i bobl yng Nghymru. Mae'n ofynnol

i feddyginiaethau sy'n glinigol ac yn gost-effeithiol fod ar gael fel opsiwn i bob person sydd angen triniaeth. Dylid gwneud penderfyniadau ar argaeledd meddyginiaethau ar sail 'unwaith i Gymru' lle y bo hynny'n briodol er mwyn osgoi dyblygu ymdrech ar draws y gwasanaeth. Yn ystod 2024-2025, buom yn gweithio gyda AW TTC ar amrywiaeth o brosiectau i helpu i gyflawni'r uchelgais hwn.

AW TTC yn sicrhau £3.3 miliwn o gyllid

Mae AW TTC wedi sicrhau cyllid o £3.3 miliwn dros bum mlynedd (2024-2028) o Raglen Fuddsoddi'r Cynllun Gwirfoddol ar gyfer Priso, Mynediad a Thwf Meddyginiaethau (VPAG). Y nod yw galluogi cleifion i gael mynediad at y triniaethau diweddaraf yn fwy cyson, i gryfhau cystadleurwydd y DU ar lefel fyd-eang mewn gofal iechyd uwch, technoleg, ymchwil glinigol a hyrwyddo gwell

canlyniadau cleifion ar gyfer poblogaeth iachach. Mae AW TTC yn canolbwyntio ar bedwar maes allweddol: sganio'r gorwel a rhagolygon ariannol, cipio data, mynediad at feddyginiaethau, a gweithredu meddyginiaethau newydd.


Cyfnod newydd i'r Llwybr Trwyddedu a Mynediad Arloesol (ILAP)

Mae ILAP ar drothwy cyfnod newydd sy'n canolbwyntio ar gael y meddyginiaethau newydd mwyaf trawsnewidiol i gleifion yn y GIG yn gyflym, trwy ddarparu un plattform integredig ar gyfer cydweithio parhaus rhwng y datblygwr, y rheoleiddiwr, y GIG, a chyrrff asesu technoleg iechyd y DU, AW TTC, y Sefydliad Cenedlaethol dros Ragoriaeth mewn Iechyd a Gofal a Chonsortiw Meddyginiaethau yr Alban. Mae'r partneriaid wedi gwneud gwelliannau allweddol i'r llwybr eleni ac wedi parhau i ymgysylltu â'r sector gwyddorau bywyd i sicrhau proses gliriach, fwy syml a chydweithredol.

Lansio proses asesu meddyginiaeth AWMSG wedi'i diweddarau

Ar ôl adolygiad cynhwysfawr, cafodd nifer o [newidiadau ym mhroses AWMSG ar gyfer](#)

[asesu meddyginiaethau](#) i'w defnyddio yn GIG Cymru eu gweithredu o fis Ionawr 2025. Mae'r newidiadau yn berthnasol i asesu meddyginiaethau trwyddedig a meddyginiaethau i'w defnyddio'n ddi-drwydded. Roedd yr adolygiad mewn ymateb i'r newid yn y dirwedd mynediad at feddyginiaethau ac i sicrhau bod proses AWMSG yn bodloni anghenion y GIG yng Nghymru ac yn cefnogi dull 'Cymru Gyfan' o fynediad at feddyginiaethau.



AWTTC yn lansio tudalen we newydd ar brinder meddyginiaethau
[Lansiwyd y dudalen we eleni](#) a mae'n rhoi gwybodaeth hanfodol i gleifion, gofalwyr, y cyhoedd a gweithwyr gofal iechyd am reoli [prinder meddyginiaethau](#) yng Nghymru. Mae'r adnoddau'n cynnwys gwybodaeth am brotocolau prinder difrifol a [thaflen wybodaeth i gleifion](#) sydd wedi'i datblygu i esbonio beth sy'n digwydd os oes prinder meddyginiaeth yng Nghymru.



Fersiwn newydd o reolaeth glinigol gychwynnol o ddi-ddifnu o nicotin
[Nod y canllawiau hyn](#) yw hysbysu a thywys staff gofal iechyd yn GIG Cymru ynghylch sut i ddechrau therapi disodli nicotin (NRT) i

reoli symptomau diddyfnu o nicotin ymhlith oedolion mewn gofal eilaidd. Yn 2024 adolygwyd a diweddarwyd y ddogfen i gynnwys gwybodaeth am y defnydd o fêps.

Initial clinical management of nicotine withdrawal in adults in secondary care

November 2024

Initial clinical management of nicotine withdrawal in adults in secondary care

5.0 Nicotine replacement therapy (NRT) prescribing

5.1 Initial prescribing of NRT

Flowchart: Does your patient have a nicotine dependency?

Table 2: Guidance for prescribing additional when required NRT

| Product | Preparations | Dosing regimen | How does it appear? | Benefits | Cautions | Side effects |
|---------------------|---|---|---|--|---|--|
| Chewing gum | 2 mg, 4 mg Available in most flavours | 4mg nicotine per day 2 mg gum when urge to smoke 4mg gum when urge to smoke per day | Nicotine is absorbed through lining of mouth when gum is held between teeth and gum | People who smoke are concerned about gaining weight and feel craving relief instead of smoking (Not suitable for use with dentures) | Nicotine can cause gastric irritation, therefore caution in people who smoke and drink (e.g. coffee, food) may cause decrease nicotine absorption | Irregularity Dry mouth Unpleasant taste Gastric irritation May stick to dentures |
| Lozenge | 2 mg, 4 mg Available in most flavours only | 4mg nicotine per day 2 mg lozenge every 1-2 hours when urge to smoke 4 mg lozenge per day | Nicotine is absorbed through lining of mouth or tongue | People who smoke are concerned about gaining weight and feel craving relief instead of smoking | Nicotine can cause gastric irritation, therefore caution in people who smoke and drink (e.g. coffee, food) may cause decrease nicotine absorption | Irregularity Dry mouth Unpleasant taste Gastric irritation |
| Mini Lozenge | 2 mg Available in most and fruit flavours, and available in most flavours only | 4mg nicotine per day 2 mg nicotine every 1-2 hours when urge to smoke 4 mg nicotine per day | Nicotine is absorbed through lining of mouth or tongue | People who smoke are concerned about gaining weight and feel craving relief instead of smoking | Nicotine can cause gastric irritation, therefore caution in people who smoke and drink (e.g. coffee, food) may cause decrease nicotine absorption | Irregularity Dry mouth |

AWTTC wedi'i enwebu ar gyfer Gwobr Canser Moondance
 Cyrhaeddodd [proses Meddyginiaethau Cymru'n Un restr fer yng ngwobrau mawreddog Canser Moondance](#) (y Cyflawniad Gweithio gyda'n Gilydd) o dros 100 o enwebiadau, i gydnabod bod AWTTC yn gweithio gyda chlinigwyr a grwpiau cleifion i nodi ac asesu meddyginiaethau addas ar gyfer trin cancer.






Uchelgais arall yw lleihau niwed sy'n gysylltiedig â meddyginiaethau a gwella diogelwch sy'n gysylltiedig â meddyginiaethau ar gyfer pobl yng Nghymru. Nod lleihau niwed sy'n gysylltiedig â meddyginiaethau y gellir ei osgoi yw lleihau'r risg sy'n gysylltiedig â rhagnodi, cyflenwi, monitro a chymryd meddyginiaeth. Pan fydd digwyddiad niweidiol yn digwydd, dylai systemau cadarn fod ar waith ar gyfer adrodd. Rydym wedi gweithio gyda AWTTC a'n partneriaid ar amrywiaeth o brosiectau sydd wedi helpu i wireddu'r uchelgais hwn.

Protocol wedi'i ddiweddarau ar gyfer rhagnodi cyffuriau gwrthseicotig i bobl sy'n byw gyda dementia

Nod y ddogfen hon yw arwain arfer gorau wrth gychwyn, monitro, adolygu, lleihau a stopio cyffuriau gwrthseicotig i bobl sy'n byw gyda dementia sy'n mynegi gofid. Yn 2024, [datblygwyd a chyhoeddwyd taflenni gwybodaeth i gleifion i roi cwestiynau allweddol i gleifion â dementia, a'u teuluoedd, i'w gofyn i'w rhagnodydd am feddyginiaethau gwrthseicotig.](#)




Lansio hyb gwybodaeth newydd am sodiwm falproad

Fel rhan o ymdrech gydweithredol y Tasglu Sodiwm Falproad a sefydlwyd gan Lywodraeth Cymru, [lansiodd AWTTC hyb gwybodaeth](#) gyda'r bwriad o ganolbwyntio ar y risgiau sy'n gysylltiedig â defnyddio falproad ymhlith menywod a merched. [Mae'r hyb](#) yn darparu dolenni i ystod o adnoddau sydd wedi'u creu i helpu i fynd i'r afael â'r risgiau hynny.



Cyhoeddi dangosfwrdd SPIRA newydd ar ddefnydd o opioidau

Eleni mae [dangosfwrdd newydd sy'n edrych ar y defnydd o opioidau yn unol â'r Dangosyddion Rhagnodi Cenedlaethol wedi ei ychwanegu at y Gweinydd ar gyfer Adrodd a Dadansoddi Gwybodaeth Rhagnodi \(SPIRA\)](#) i helpu i gefnogi byrddau iechyd ac Ymddiriedolaethau'r GIG.






Uchelgais i ni yw optimeiddio'r gwerth y mae GIG Cymru yn ei gyflawni o'i fuddsoddiad mewn meddyginiaethau. O ystyried adnoddau cyfyngedig

GIG Cymru, dylai pob penderfyniad, cyngor ac arweiniad yr ydym yn ei gyhoeddi fod ag ystyriaethau gwerth yn greiddiol iddynt. Mae 'Cymru Iachach' Llywodraeth Cymru yn diffinio gwerth uwch fel 'sicrhau gwell canlyniadau a gwell profiad i bobl am gost is.' Rydym wedi gweithio gyda AW TTC ar amrywiaeth o brosiectau i helpu i gyflawni'r uchelgais hwn.

Animeiddiad newydd ar gyfer gwella rhagnodi, defnyddio a gwaredu anadlyddion yng Nghymru

Er mwyn cefnogi'r [strategaeth genedlaethol ar ddatgarboneiddio anadlyddion](#), gweithiodd AW TTC gyda Llywodraeth Cymru, Iechyd Cyhoeddus Cymru, Asthma and Lung UK a Phrifysgol Metropolitan Caerdydd i gynhyrchu [animeiddiad byr gyda'r nod o wella rhagnodi, defnyddio a gwaredu anadlyddion yng Nghymru](#). Mae'r ffilm yn cael ei rhannu'n eang o fewn GIG Cymru, ac mewn lleoliadau gofal sylfaenol ac uwchradd.



Cyflwyno Gwobr Fferylliaeth i Grŵp Gorchwyl a Gorffen Datgarboneiddio Anadlyddion

Yng Ngwobrau Fferylliaeth Cymru [derbyniodd staff o AW TTC ac Iechyd Cyhoeddus Cymru y wobwr Cynaliadwyedd mewn Gofal Iechyd](#) ar ran y Grŵp Gorchwyl a Gorffen Datgarboneiddio Anadlyddion. Mae'r Grŵp yn rhoi cymorth cydgysylltiedig i leihau'r ôl troed carbon sy'n gysylltiedig ag anadlyddion yn unol â'r [strategaeth ddatgarboneiddio genedlaethol](#).



Cyhoeddi canllawiau arfer da ar ragnodi gwrthfotigau wrth gefn

Mae canllawiau newydd wedi'u cyhoeddi ar y [defnydd priodol o ragnodi gwrthfotigau wrth gefn](#) ar gyfer heintiau hunangyfngol penodol, y strategaethau y gellir eu defnyddio a'r arfer da wrth weithredu'r strategaeth mewn gofal sylfaenol. Cafodd [taflen wybodaeth i gleifion](#) ei datblygu hefyd i gyfleu gwybodaeth allweddol i gleifion pan fyddant yn cael presgripsiwn o wrthfotigau, gan gynnwys cwestiynau cyffredin a diffiniadau o dermau defnyddiol. Y gobaith yw y bydd gweithredu'r canllaw hwn yn lleihau amlygiad diangen i wrthficrobau.

Cyhoeddi datganiad safbwynt ar ragnodi meddyginiaethau generig wedi'u brandio

Mae [datganiad sefyllfa](#) wedi'i gyhoeddi sy'n amlinellu pam na ddylid ymgymryd â rhagnodi meddyginiaethau generig wedi'u brandio'n rheolaidd yn GIG Cymru oni bai bod rheswm clinigol penodol dros wneud hynny. Dylai'r ddogfen arwain rhagnodwyr wrth benderfynu a ddylid rhagnodi yn ôl brand neu feddyginiaethau generig wedi'u brandio.

Optimeiddio meddyginiaethau

Canllawiau ac adnoddau rhagnodi

Mae optimeiddio meddyginiaethau yn canolbwyntio ar gleifion a chanlyniadau yn hytrach na phrosesau a systemau. Ei nod yw cynorthwyo gweithwyr gofal iechyd proffesiynol i gynghori cleifion sut y gallant gael y canlyniadau gorau o'u meddyginiaethau. Gall hyn olygu atal rhai meddyginiaethau neu ddechrau eraill, i sicrhau bod claf yn cymryd y feddyginiaeth fwyaf diogel sy'n trin ei gyflwr. Bydd gweithwyr gofal iechyd proffesiynol hefyd yn cynghori cleifion ar y ffordd orau o barhau â thriniaeth. Er mwyn helpu cleifion a rhagnodwyr i gael y canlyniadau gorau o feddyginiaethau, rydym yn cyhoeddi canllawiau ac adnoddau rhagnodi, yn ogystal ag adroddiadau ar berfformiad rhagnodi.

Fe wnaethom gyhoeddi ystod o ganllawiau ac adnoddau rhagnodi rhwng mis Ebrill 2024 a mis Mawrth 2025.


Penblethau presgripsiynu

Mae'r ddogfen 'Dilemâu Presgripsiynu' a gymeradwywyd gan AWMSG yn darparu cyngor i weithwyr gofal iechyd proffesiynol ar ystod o bynciau, gan gynnwys: cyfrifoldeb clinigol; atgyfeiriadau preifat;

rhagnodi meddyginiaethau at ddefnydd heb drwydded; a rhagnodi ar gyfer ymwelwyr o dramor. Ym mis Tachwedd 2024, diweddarwyd y canllaw gydag adran ychwanegol ar rannu cyfrifoldeb am rhagnodi rhwng clinigydd preifat a rhagnodydd y GIG.

Taflenni gwybodaeth i gleifion am reoli prinder meddyginiaethau yng Nghymru

Nod y taflenni hyn yw hysbysu pobl am yr hyn sy'n digwydd os oes prinder meddyginiaeth yng Nghymru. Mae'r taflenni wedi'u bwriadu ar gyfer pob claf, eu teuluoedd a'u gofalwyr. Datblygwyd y fformat hawdd ei ddarllen gydag Anabledd Dysgu Cymru, ac mae fformatau print o ansawdd uwch sy'n hygyrch yn ddigidol hefyd ar gael.



Monograff y Gwasanaeth Anhwylderau Cyffredin ar gyfer haint y llwybr wrinol

Nod y Gwasanaeth Anhwylderau Cyffredin yw gwella mynediad cleifion at gyngor cyson sy'n seiliedig ar dystiolaeth ar gyfer rheoli anhwylderau cyffredin. Mae'r ddogfen hon yn cynnwys monograffau ar gyfer y 27 o anhwylderau sydd wedi eu cynnwys gan y gwasanaeth fferylllydd cymunedol. Eleni derbyniodd y llyfr fformiwlâu ddiweddiariad sylweddol gydag ychwanegu monograff ar gyfer haint y llwybr wrinol mewn menywod a dynion trawsryweddol nad ydynt wedi cael llawdriniaeth ailbennu rhywedd.

Taflen wybodaeth i gleifion - Cyffuriau gwrthseicotig mewn cleifion sy'n byw gyda dementia

Ym mis Chwefror 2024, cyhoeddwyd dogfen yn arwain arfer gorau wrth gychwyn, monitro, adolygu, lleihau a stopio cyffuriau gwrthseicotig pan gânt eu rhagnodi i bobl sy'n byw gyda dementia sy'n mynegi gofid. Mae hefyd yn cynghori ymarferwyr cyffredinol ac arbenigwyr ar reoli rhagnodi hirdymor cyffuriau gwrthseicotig lle nodir

hynny. Yn 2024–2025 datblygwyd taflen wybodaeth i gleifion i roi cwestiynau allweddol iddyn nhw (neu eu gofalwyr) i'w gofyn i'w presgripsiynydd am feddyginiaethau gwrthseicotig. Datblygwyd fersiwn hawdd ei darllen hefyd gydag Anabledd Dysgu Cymru.


[Datganiad safbwynt ar ragnodi meddyginiaethau generig wedi'u brandio yn GIG Cymru](#)

Ni ddylid ymgymryd â rhagnodi meddyginiaethau generig wedi'u brandio'n rheolaidd yn GIG Cymru oni bai bod rheswm clinigol penodol dros wneud hynny. Mae'r ddogfen hon yn tynnu sylw at y ffaith y dylai presgripsiynwyr ddefnyddio eu barn glinigol ac ymgynghori â'r wybodaeth ddiweddaraf wrth benderfynu a ddylid rhagnodi yn ôl brand neu feddyginiaethau generig wedi'u brandio.

[Canllawiau ar ddad-labelu alergedd i benisilin](#)

Nod y ddogfen hon yw arwain arfer gorau ar nodi a thynnu labeli alergedd i benisilin mewn oedolion nad ydynt wedi profi adwaith gorsensitifrwydd go iawn. Bwriedir i'r canllawiau hyn gael eu defnyddio gyda


chleifion mewnol sy'n adrodd am alergedd i benisilin mewn lleoliadau gofal eilaidd yn GIG Cymru. Datblygwyd taflen wybodaeth i gleifion gyda fersiwn hawdd ei darllen i gyd-fynd â'r canllawiau, a oedd yn cynnwys gwybodaeth allweddol i gleifion, eu teuluoedd a'u gofalwyr am alergedd i benisilin. Datblygwyd y fformat hawdd ei darllen gydag Anabledd Dysgu Cymru.



[Canllawiau arfer da ar ragnodi gwrthfotigau wrth gefn](#)

Nod y canllawiau hyn yw annog gweithredu strategaeth rhagnodi gwrthfotigau wrth gefn yn fwy cyson gan yr holl weithwyr gofal iechyd proffesiynol mewn gofal sylfaenol. Y gobaith yw y bydd gweithredu'r

canllaw hwn yn lleihau amlygiad diangen i wrthficrobau. Cynhyrchwyd taflenni gwybodaeth i gleifion, a fersiwn hawdd ei darllen a ddatblygwyd gydag Anabledd Dysgu Cymru, i gynnwys gwybodaeth allweddol i gleifion pan fyddant yn cael presgripsiwn gwrthfotig wrth gefn.







[Rheolaeth glinigol gychwynnol o ddiidffnu o nicotin](#)

Mae'r ddogfen hon yn hysbysu ac yn tywys staff gofal iechyd yn GIG Cymru ynghylch sut i ddechrau therapi disodli nicotin (NRT) i reoli symptomau diddyfnu nicotin mewn oedolion sy'n cael eu derbyn i'r ysbyty (gofal eilaidd). Bwriedir i'r ddogfen gael ei defnyddio ochr yn ochr â'r ddogfen a gymeradwywyd gan AWMSG [Canllaw Cymru Gyfan: Ffarmacotherapi ar gyfer rhoi'r gorau i smygu](#).

Diweddariadau i adnoddau

Gwnaed mân ddiweddariadau i'r adnoddau isod hefyd rhwng Ebrill 2024 a Mawrth 2025.

- [Canllawiau Gwrthficrobaidd Gofal Sylfaenol](#)
- [Llyfr Fformiwlâu Gwasanaeth Anhwylderau Cyffredin Cymru Gyfan](#)
- [Penblethau Presgripsiynu](#)
- [Ffarmacotherapi ar gyfer rhoi'r gorau i smygu](#)




Cydnabyddiaethau

Nod ein proses gydnabod yw tynnu sylw at adnoddau, mentrau neu ymgyrchoedd sydd eisoes yn cael eu cydnabod neu eu cymeradwyo gan gorff neu sefydliad cenedlaethol ac sydd wedi'u gweithredu neu eu derbyn fel arfer da yng Nghymru. Rhwng mis Ebrill 2024 a mis Mawrth 2025, gwnaethom gydnabod y canlynol:

- [Canllawiau ar atal a rheoli syndrom lysis tiwmor](#)
- [Rhagnodi cyffuriau gwrth-iselder yn y cyfnod amenedigol - Canllawiau a phoster i gleifion](#)

Mae pob un o'r [adnoddau cydnabyddedig](#) ar gael ar wefan AWTTTC.



Monitro a dadansoddi rhagnodi

Dangosyddion Rhagnodi Cenedlaethol

Rydym yn monitro ac yn dadansoddi data rhagnodi er mwyn meincnodi perfformiad ac ysgogi gwelliannau yn GIG Cymru.

Defnyddir [Dangosyddion Rhagnodi Cenedlaethol \(NPIs\)](#) i dynnu sylw at flaenoriaethau therapiwtig ar gyfer GIG Cymru a chymharu'r ffyrdd y mae rhagnodwyr a sefydliadau gwahanol yn defnyddio meddyginiaethau neu grwpiau o feddyginiaethau penodol. Mae NPIs yn seiliedig ar dystiolaeth, yn glir, yn hawdd eu deall, ac yn caniatáu i fyrdau iechyd, clystyrau gofal sylfaenol, practisau meddygon teulu a rhagnodwyr i gymharu arferion cyfredol â safon ansawdd y cytunwyd arni.

Dangosyddion Rhagnodi Cenedlaethol 2022-2025

Roedd y 14 [NPI ar gyfer 2022-2025](#), a gymeradwywyd gennym ni, yn canolbwyntio ar bedwar maes blaenoriaeth (poenliniaryddion; gwrthgeulyddion mewn ffibriliad atrïaidd; stiwardiaeth wrthficrobaidd; a datgarboneiddio anadlyddion), a ategwyd gan ddangosyddion ychwanegol sydd wedi'u grwpio yn ôl diogelwch ac effeithlonrwydd.

Mae AW TTC yn cyhoeddi [adroddiad](#)

Meysydd Blaenoriaeth

Poenliniaryddion
Stiwardiaeth wrthficrobaidd
Parenterol
Atalyddion SGLT2

Parthau ategol

Diogelwch

Dangosyddion diogelwch presgripsiynu
Hypnotigion a chyffuriau lleihau gorbryder
Cardiau Melyn

Effeithlonrwydd

Meddyginiaethau biolegol gwerth gorau
Gwerth isel am ragnodi



[chwarterol](#) sy'n dadansoddi perfformiad pob bwrdd iechyd yn erbyn y set bresennol o Ddangosyddion Rhagnodi Cenedlaethol.

Mae'r [Gweinydd ar gyfer Adrodd a Dadansoddi Gwybodaeth Rhagnodi \(SPIRA\)](#) yn cael ei ddiweddarau bob chwarter gyda data NPI ar gyfer byrdau iechyd, clystyrau a phractisau meddygon teulu unigol

ynghymru, sy'n rhoi golwg fanylach ar ragnodi lleol. Mae SPIRA hefyd yn cynnwys data ychwanegol, fel dangosfwrdd datgarboneiddio anadlyddion AW TTC, amrywiaeth o ddangosfyrddau 'arbedion effeithlonrwydd' a dangosfwrdd sy'n canolbwyntio ar y defnydd o opioidau ledled Cymru. Gall defnyddwyr ar Rwydwaith GIG Cymru ddefnyddio'r dangosfyrddau rhyngweithiol hyn i ddadansoddi data rhagnodi yn gymharol.

Dangosyddion Rhagnodi Cenedlaethol 2025-2028

Ym mis Rhagfyr 2024, fe wnaethom gymeradwyo'r set ddiweddaraf o Ddangosyddion Rhagnodi Cenedlaethol a fydd yn rhedeg rhwng [Ebrill 2025 a Mawrth 2028](#). Mae'r set newydd hon o ddangosyddion hefyd yn canolbwyntio ar bedwar maes blaenoriaeth: gan roi gwrthgeulyddion mewn ffibriliad atrïaidd o'r neilltu, disodli datgarboneiddio anadlyddion â chyfres ehangach o ddangosyddion anadlol, ac ychwanegu cyfres o ddangosyddion sy'n canolbwyntio ar ragnodi atalyddion SGLT-2. Am holl fanylion y newidiadau pellach sydd wedi'u gwneud, yn ogystal â'r deunyddiau ategol sydd wedi'u datblygu, [gweler gwefan AW TTC](#).

Mynediad at feddyginiaethau Sganio'r gorwel

Mae tîm sganio'r gorwel AWTTTC yn casglu gwybodaeth am feddyginiaethau sy'n cael eu datblygu. Mae'r wybodaeth hon yn cefnogi byrddau iechyd ac ymddiriedolaethau yng Nghymru gyda'r gwaith cynllunio a gweithredu sydd eu hangen i sicrhau bod y meddyginiaethau hynny ar gael i gleifion. Yn benodol, mae AWTTTC yn monitro meddyginiaethau ar raglen waith y Sefydliad Cenedlaethol dros Ragoriaeth mewn Iechyd a Gofal (NICE). Mae'r tîm yn defnyddio storfa sganio'r gorwel ddiogel i rannu gwybodaeth sganio'r gorwel a rhagolygon ariannol gyda phobl allweddol ledled GIG Cymru.

Er mwyn gallu sganio'r gorwel yn effeithiol, mae angen ymgysylltu ag arbenigwyr sy'n gweithio yn y GIG yng Nghymru, a mewnbwn ganddynt. Mewn cydweithrediad â Rhwydwaith Canser Cymru, mae AWTTTC wedi sefydlu Grŵp Cydweithredol Sganio'r Gorwel Therapiau Gwrth-ganser Systemig (SACT). Gyda mewnbwn gan bartneriaid allweddol eraill, gan gynnwys Gwasanaeth Genomeg Feddygol Cymru Gyfan a'r Rhaglen Batholeg Genedlaethol, mae'r Grŵp yn adolygu ac yn asesu effaith bosibl



1 adroddiad cryno sganio'r gorwel ar gyfer meddyginiaethau cancer



11 o gyfarfodydd gyda Grŵp Cydweithredol Sganio'r Gorwelion SACT



4 diweddariad sganio'r gorwel ar gyfer Pwyllgor Llywio AWMMSG



Mae yna bellach berthynas waith gref iawn rhwng y Rhwydwaith ac AWTTTC. Mae'r broses sganio'r gorwel yn gadarn ac mae llawer o fferyllwyr ledled Cymru yn ymgysylltu, gan gynrychioli gwahanol safleoedd cancer a mathau o ganser, yn ogystal â chynrychiolaeth o batholeg a genomeg.

Tracy Parry, Fferylllydd Arweiniol SACT, Bwrdd Iechyd Prifysgol Betsi Cadwaladr.



meddyginiaethau cancer sy'n dod drwy raglen waith NICE. Cyflwynodd aelod o dîm sganio'r gorwel AWTTC yn nigwyddiad SACT ac Addysg y Gwasanaeth Oncoleg Acíwt yn Llandudno ym mis Mehefin 2024 i dynnu sylw at waith y fenter ar y cyd hon.

Mae AWTTC yn parhau i feithrin cysylltiadau â sefydliadau eraill, gan gynnwys Therapiau Uwch Cymru (ATW) a Chydbwyllgor Comisiynu GIG Cymru (NWJCC). Gweithiodd AWTTC ochr yn ochr ag ATW a NWJCC i gynhyrchu fersiwn gyntaf [Cipddarlun Sganio'r Gorwel Cynnyrch Meddyginiaethol Therapi Uwch \(ATMP\)](#) fydd yn cael ei gyhoeddi bob dwy flynedd.


Y tu allan i Gymru, mae'r tîm sganio'r gorwel yn ymwneud â nifer o grwpiau sganio'r gorwel ledled y DU, gan gynnwys y Fenter Mynediad at Feddyginiaethau a Dyfeisiau Meddygol. Bydd y cysylltiadau a'r cydweithrediadau hyn, ynghyd â chyllid gan Gynllun Gwirfoddol 2024 ar gyfer Prisio, Mynediad a Thwf Meddyginiaethau wedi'u Brandio, yn helpu AWTTC i barhau i gryfhau ei alluoedd sganio'r gorwel cenedlaethol a rhagolygon ariannol i helpu i sicrhau bod systemau ar draws y GIG yng Nghymru wedi'u paratoi.

“

Mae'r cydweithrediad sy'n cael ei arddangos yn enghraifft o'r hyn sy'n bosibl ar sail Unwaith i Gymru, gan ysgogi mewnwelediad cyfunol tîm amrywiol. Mae'r cyfarfodydd wedi gwneud gwahaniaeth amlwg i'r biblinell o argaeledd meddyginiaethau yng Nghymru, mewn tirwedd weithredu gynyddol gymhleth.

Diana Matthews, Fferylllydd Arweiniol SACT ac Anthony Cadogan, Dirprwy Gyfarwyddwr Fferylliaeth, Ymddiriedolaeth GIG Felindre.

”



Nod Llywodraeth Cymru yw sicrhau bod cleifion yng Nghymru yn cael mynediad cyflym a chyfartal at feddyginiaethau. Mae asesu technoleg iechyd (HTA) yn gwerthuso effeithiolrwydd clinigol a chost meddyginiaeth. Mae canllawiau HTA NICE yn berthnasol yng Nghymru a Lloegr, ac mae AWMMSG yn darparu cyngor ar feddyginiaethau nad ydynt wedi'u cynnwys yn rhaglen waith NICE. Mae AWTTTC yn cefnogi AWMMSG i ddarparu [prosesau asesu sy'n seiliedig ar dystiolaeth](#).


[Yn 2024, fe wnaethom adolygu a mireinio ein prosesau asesu meddyginiaethau](#) i gefnogi dull Cymru Gyfan o fynediad at feddyginiaethau, gan ganolbwyntio ein hymdrechion i nodi meysydd o angen sydd heb eu diwallu. Mae meddyginiaethau yn cael eu nodi i'w hasesu trwy broses sganio'r gorwel AWTTTC a thrwy ymgysylltu â'r diwydiant, gweithwyr gofal iechyd proffesiynol a'r cyhoedd.

Mae grŵp newydd o'r enw Panel Craffu AWMMSG, a gyfansoddwyd o'r GIG ac sydd ag aelodaeth leyg, yn cynghori ar lwybr a blaenoriaeth y meddyginiaethau i'w hasesu gan is-grwpiau AWMMSG. Mae gan AWMMSG

ddau is-grŵp sy'n asesu meddyginiaethau ac yn rhoi eu hargymhellion i AWMMSG: mae'r Grŵp Asesu Meddyginiaethau Trwyddedig Cymru'n Un (LOWMAG) yn asesu meddyginiaethau trwyddedig, ac mae Grŵp Asesu Meddyginiaethau Cymru'n Un (OWMAG) yn asesu meddyginiaethau a ddefnyddir yn ddi-drwydded (hynny yw, meddyginiaeth a ddefnyddir y tu allan i delerau ei drwydded yn y DU).


Mae AWMMSG yn chwarae rôl lywodraethu, gan sicrhau bod yr is-grwpiau yn darparu proses deg a thryloyw. Mae'r argymhellion wedyn yn cael eu hanfon at Lywodraeth Cymru i'w cadarnhau. Ar ôl eu cadarnhau gan Lywodraeth Cymru, bydd gweithredu'r argymhellion hyn ledled GIG Cymru yn sicrhau mynediad cyfartal a chyson at y meddyginiaethau hynny yng Nghymru.

Mae manylion y [prosesau asesu newydd ar gyfer meddyginiaethau trwyddedig a di-drwydded](#) ar wefan AWTTTC.



5 meddyginiaeth wedi eu gwerthuso gan AWMMSG

4 argymhelliaid Cymru'n Un



7 adolygiad Cymru'n Un

Y Gronfa Triniaethau Newydd

Nod y Gronfa Triniaethau Newydd (NTF), a lansiwyd gan Lywodraeth Cymru ym mis Ionawr 2017, yw rhoi mynediad cyflymach i gleifion ledled Cymru at feddyginiaethau newydd. Disgwylir i fyrddau iechyd sicrhau bod meddyginiaethau ar gael i'w rhagnodi i gleifion o fewn 60 diwrnod ar ôl i'r Sefydliad Cenedlaethol dros Ragoriaeth mewn lechyd a Gofal (NICE) gyhoeddi Canllawiau Drafft Terfynol neu Benderfyniad Gwerthuso Terfynol, neu o fewn 60 diwrnod i Lywodraeth Cymru'n cadarnhau cyngor AWMSG.

Er mwyn monitro cydymffurfiaeth â'r NTF, mae AW TTC yn darparu adroddiadau rheolaidd i Lywodraeth Cymru ar statws fformiwla meddyginiaethau yr ydym ni, neu NICE, yn eu hargymell i'w defnyddio o fewn GIG Cymru.



77

o feddyginiaethau ar y Gronfa Triniaethau Newydd

Tîm Mynediad at Feddyginiaethau Masnachol

Mae'r Tîm Mynediad at Feddyginiaethau Masnachol (CMAT) yn dîm aml-sefydliadol cydweithredol o gydweithwyr AW TTC, Partneriaeth Cydwasanaethau GIG Cymru (PCGC) a'r Uned Gwerth Meddyginiaethau (UGM).


Rôl CMAT yw cefnogi a monitro gweithrediad meddyginiaethau a argymhellir gan AWMSG, a NICE, sy'n gysylltiedig â threfniant masnachol o fewn GIG Cymru. Mae trefniant masnachol yn gwella effeithiolrwydd cost meddyginiaeth; gall fod yn Gynllun Mynediad i Gleifion (PAS) neu'n Gytundeb Mynediad Masnachol (CAA). Mae hyn yn sail i hanfod [Cymru Iachach](#), gan ganiatáu i gleifion gael mynediad prydlon at feddyginiaethau, tra'n sicrhau bod y GIG yng Nghymru yn cael y gwerth am arian uchaf posibl lle mae meddyginiaethau'n y cwestiwn.

Mae CMAT yn prosesu nifer cynyddol o drefniadau masnachol, a chyda chynnydd yn nifer y CAAs cymhleth sy'n dod i Gymru, mae'r broses o reoli, monitro ac adennill ad-daliadau ar gyfer GIG Cymru yn dod yn



55

o linellau mynediad masnachol



llawer mwy heriol. I gefnogi'r gwaith hwn, mae AWTTTC wedi sefydlu Grŵp Cynllun Trefniadau Masnachol Cymru (CASWG), is-bwyllgor AWMMSG a fydd yn cynyddu cyfranogiad rhanddeiliaid, tryloywder a llywodraethu o ran cymeradwyo trefniadau masnachol ar ran GIG Cymru.

System Cyffuriau Cost Uchel Blueteq



Mae [System Cyffuriau Cost Uchel Blueteq \(HCD\)](#) yn sicrhau bod meddyginiaethau yn cael eu rhagnodi yn unol â'r canllawiau asesu a gyhoeddwyd gan AWMMSG a NICE. Bydd mabwysiadu'r system yn sicrhau ein bod yn cael y driniaeth gywir i'r bobl gywir yng Nghymru.

Eleni, mae AWTTTC wedi penodi Rheolwr Rhaglen i helpu i gefnogi byrddau iechyd ac ymddiriedolaethau gyda'r ail gam o gyflwyno System HCD Blueteq yng Nghymru. Bydd lansio System HCD Blueteq,




gan ddechrau yn ail chwarter 2025, yn caniatáu i GIG Cymru reoli'r cymhlethdodau cynyddol sy'n gysylltiedig â rhagnodi triniaethau cost uchel. Bydd System HCD Blueteq yn sicrhau byrddau iechyd ac ymddiriedolaethau bod y meddyginiaethau cost uchel cymeradwy yn cael eu rhagnodi yn unol â pholisi lleol a chanllawiau NICE, gan roi cysondeb ledled Cymru.

Gweithgarwch yn ystod 2024-2025


Yn ogystal ag AWTTTC sy'n cefnogi'r holl waith sy'n mynd trwy AWMMSG, mae [Grŵp Ymchwil](#) AWTTTC yn hwyluso ymchwil o ansawdd uchel i'r defnydd diogel ac effeithiol o feddyginiaethau yng Nghymru. Mae'r themâu ymchwil allweddol yn cynnwys: mynediad at feddyginiaethau, optimeiddio meddyginiaethau a diogelwch meddyginiaethau.



7 erthygl a adolygwyd gan gymheiriaid wedi'u cyhoeddiw



11 o bosteri cynhadledd



6 anerchiad cynhadledd

Erthyglau a adolygwyd gan gymheiriaid

- [Rôl Gwasanaeth Gwybodaeth Gwenwynau Cenedlaethol \(NPIS\) y DU wrth roi diagnosis o farwolaeth yn ôl meini prawf niwrolegol mewn cleifion wedi'u gwenwyno a heb eu gwenwyno](#)
- [Gwenwyn opioid pediatriig yn y DU: dadansoddiad ôl-weithredol o ymholiadau clinigol i'r NPIS](#)
- [Canlyniad cleifion yn dilyn rhagnodi atalydd ailamsugno serotonin detholus mewn gofal sylfaenol yng Nghymru \(DU\)](#)
- [Rhagnodi yn ôl lefel amddifadedd yng Nghymru: ymchwiliad i grwpiau meddyginiaeth dethol](#)
- [Camgymeriadau meddyginiaeth sy'n cynnwys paracetamol mewnwythiennol ymhlith plant: profiad o ymholiadau i'r NPIS](#)
- [Tueddiadau mewn rhagnodi gwrthisylyddion trichylch a gwenwyno yng Nghymru a Lloegr 2016-2020](#)
- [Cyfres o docsigedd ibogaine a adroddwyd i NPIS y DU dros gyfnod o 10 mlynedd](#)

Cafodd [tri phoster](#) eu cyflwyno yng Nghyfarfod Blynyddol Technoleg Iechyd Rhyngwladol (HTAi) 2024. Roedd y posteri yn edrych ar y [defnydd cymeradwy o dostarlimab ar gyfer trin canser y rectwm, rituximab di-drwydded fel triniaeth imiwnoataliedig gyntaf ar gyfer myasthenia gravis cyffredinol](#) ac [addasu proses arfarnu AWMMSG ar gyfer meddyginiaethau i blant](#).

Rhodddwyd [pedwar cyflwyniad poster a thri anerchiad](#) yn 44^{ain} Cyngres Cymdeithas Ewropeaidd Canolfannau Gwenwyn a Thocsicolegwyr Clinigol (EAPCCT). Roedd pynciau'r posteri'n cynnwys: [llyncu madarch hamdden ymhlith pobl ifanc](#); [achos o wenwyndra Digitalis difrifol](#); [nodi cyffuriau sydd â photensial i'w camddefnyddio](#); ac [amlygiad plant i sigarêts electronig](#). Roedd y sgysiau'n cynnwys [amlygiad paracetamol bwriadol mewn plant, gweinyddu mewnfasgwlaidd damweiniol o hydoddiant glanhau clwyfau](#), ac [amlygiad i gynhyrchion llysiuol Falerian](#).

Cyflwynodd AW TTC hefyd bedwar poster a thair sgwrs mewn saith cynhadledd ledled y DU:

- Yng Nghynhadledd Wyddonol Flynyddol Coleg Brenhinol Meddygaeth Frys, cyflwynodd staff anerchiad am [sodiwm asaid fel pryder iechyd cyhoeddus posibl sy'n dod i'r amlwg](#).
- Yng Nghynhadledd Ymchwil Gwasanaethau Iechyd ac Ymarfer Fferylliaeth, cyflwynwyd anerchiad ar [gyflwyno offeryn cenedlaethol newydd i fonitro ôl troed carbon anadlyddion](#).
- Yn nigwyddiad Addysg Therapiau Gwrth-ganser Systemig (SACT) a'r Gwasanaeth Oncoleg Acíwt (AOS), cyflwynwyd poster am y [cydweithio rhwng AW TTC a Rhwydwaith Canser Cymru i ddatblygu dulliau sganio'r gorwel mwy effeithiol ac 'Unwaith i Gymru' ar gyfer meddyginiaethau cancer](#).
- Cyflwynwyd poster am [ddatblygu fformatau hawdd eu darllen o daflenni gwybodaeth i gleifion yng Nghymru yn 34^{ain} Cyfarfod Gwyddonol Blynyddol Rhagnodi ac Ymchwil mewn Rheoli Meddyginiaethau \(PRIMM\)](#).




- Cyflwynodd staff boster yng [Nghyfarfod y Gwanwyn Cymdeithas Geriatreg Prydain ynglŷn â defnyddio data i nodi risgiau diogelwch posibl sy'n gysylltiedig â'r defnydd o systemau dos wedi'u monitro](#).
- Cyflwynwyd poster yng Nghynhadledd Ymchwil Canser Cymru am [gasglu data canlyniadau cleifion ledled Cymru ar gyfer meddyginiaethau sy'n cael eu cyrchu drwy broses Meddyginiaethau Cymru'n Un AWMMSG](#).
- Yng Nghynhadledd Flynyddol NICE 2025, siaradodd Cyfarwyddwr Rhaglen AW TTC, Dr Andrew Champion, fel rhan o'r sesiwn ['Sbarduno atebion creadigol mewn HTA'](#) ynghylch y broses o gael mynediad at feddyginiaethau sydd newydd ei lansio yng Nghymru. Cymerodd ran hefyd mewn sesiwn holi ac ateb gyda chyd-siaradwyr.

**Mae cyhoeddiadau cyfnodolion yn Saesneg yn unig.*



All Wales Therapeutics & Toxicology Centre
Canolfan Therapiwteg a Thocsicoleg Cymru Gyfan



Grŵp Strategaeth Meddyginiaethau Cymru Gyfan
All Wales Medicines Strategy Group

Cyhoeddwyd gan:

Canolfan Therapiwteg a Thocsicoleg Cymru Gyfan
Canolfan Academaidd Routledge
Ysbyty Athrofaol Llandochoau
Bro Morgannwg
CF64 2XX

Ar ran Grŵp Strategaeth Meddyginiaethau Cymru Gyfan

Dylid cyfeirio pob ymholiad at:

Mrs Ruth Lang
Uwch Reolwr Cyswllt
E-bost: awttc@wales.nhs.uk
Rhif ffôn: 029 218 26900

Noder bod y wybodaeth yn y ddogfen hon yn gywir ar adeg argraffu, ond gallai newid.

I gael y wybodaeth ddiweddaraf, ewch i:

awttc.nhs.wales (Gwefan Saesneg)

cttcg.gig.cymru (Gwefan Gymraeg)

[@AWTTCComms](#) (Cyfrif X Saesneg)

[@AWTTCCymraeg](#) (Cyfrif X Cymraeg)

[LinkedIn](#) (Cymraeg a Saesneg)

Dychwelyd i ddechrau'r adroddiad

